**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Y Grŵp Gweithredu Strategol**
**Dydd Llun 3 Chwefror, Stadiwm Principality, Caerdydd**
**Crynodeb o'r Cyfarfod**

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru (LlC) groeso i bawb i'r cyfarfod. Croesawyd yr aelodau newydd, a bydd aelodau ychwanegol yn cael eu gwahodd, fel y bo'n briodol, wrth i'r gwaith gweithredu fynd rhagddo.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (23/09/2019)

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2019.

## 3. Y diweddaraf am gynnydd y ddeddfwriaeth

Mae'r Bil wedi pasio Cyfnod 4; Cydsyniad Brenhinol yw'r cam nesaf, ac wedyn daw'n Ddeddf gan y Senedd. Bydd tîm y Bil yn canolbwyntio ar y gwaith gweithredu.

## 4. Y Diweddaraf am y Statws Gweithredu

Rhoddodd LlC y diweddaraf am raglen weithredu'r ddeddfwriaeth, yn cynnwys gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen.

Trafodwyd y themâu canlynol:

- Pa mor bwysig yw sicrhau bod yr amserlenni a'r adnoddau mewn lle ar gyfer pob agwedd ar y gwaith gweithredu.

- Argaeledd lefelau cyson o gymorth rhianta ledled Cymru: mae'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta yn ystyried canlyniadau'r ymarfer mapio. Hefyd, mae'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta yn ystyried datblygu mwy ar yr ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo', yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar gyfer rhieni, ac ymestyn yr ystod oedran.

- Ystyried gofynion penodol amrywiaeth o ddiwylliannau a chefndiroedd teuluol wrth ddatblygu'r dull o godi ymwybyddiaeth a darparu cyngor a chymorth. Fel rhan o'r strategaeth i godi ymwybyddiaeth, cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflogi asiantaeth arbenigol i weithio gyda chynulleidfaoedd BAME a chynulleidfaoedd a dargedir i gwmpasu'r gofynion o ran gwybodaeth a chymorth. Gofynnwyd i aelodau'r Grŵp Gweithredu Strategol roi gwybod i dîm y Bil pe baent o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth i grwpiau penodol.

- Sicrhau bod arferion diogel mewn perthynas ag ataliaeth a diddymu'r amddiffyniad cosb resymol yn cyd-fynd â'i gilydd, ac na cheir unrhyw ddryswch ynghylch yr effaith a ddaw yn sgil diddymu'r amddiffyniad.

## 5. Y Diweddaraf am Gyfathrebu

Cyflwynodd LIC y diweddaraf am y cynllun cyfathrebu, a rhoddwyd cyflwyniad yn ymwneud â'r syniadau creadigol arfaethedig y gellid eu datblygu ar gyfer yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Bu'r grŵp yn ystyried effeithiolrwydd pob syniad; ystyriwyd y farn ochr yn ochr ag adborth gan y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol. Yn bwysig ddigon, bydd cyfres o grwpiau ffocws yn cael eu cynnal ledled Cymru, a bydd cynulleidfaoedd BAME yn cael eu cynnwys.

## 6. Cynigion o ran data sylfaenol – Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro

Rhoddodd LIC wybod i'r grŵp am y metrigau terfynol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gasglu data sylfaenol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, a chyflwynwyd opsiynau'n ymwneud â chasglu data sylfaenol ar gyfer yr heddlu. Dywedodd yr Heddlu mai'r opsiwn a ffefrir yw defnyddio methodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer y data a ddarparwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (dadansoddi'r data'n ôl-weithredol), ond gan fireinio'r fethodoleg gyda chwiliadau awtomataidd.

## 7. Adolygiad ôl-weithredu

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried paramedrau eang yr adolygiad ôl-weithredu.

Esboniodd LIC fod cyfres o newidiadau wedi'u cynnig yn ystod gwaith craffu Cyfnod 2 y Bil. Nid oedd y newidiadau hyn yn deillio o'r Llywodraeth, a'u bwriad oedd ceisio ychwanegu manylion at yr hyn y dylid ei gynnwys mewn adroddiad adolygiad ôl-weithredu ar wyneb y Bil. Ni chytunwyd ar y newidiadau hyn. Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y grŵp yn ceisio'i farn ynglŷn â chynnwys posibl adroddiad adolygiad ôl-weithredu. Mae'r llythyr yn gofyn i'r Cadeirydd geisio cyngor ynglŷn â pha mor ymarferol fyddai cynnwys yr opsiynau manwl y tynnwyd sylw atynt yn ystod Cyfnod 2 yr adroddiad.

Cytunodd yr aelodau mai'r dull mwyaf synhwyrol fyddai i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro ystyried y cais hwn gyda golwg ar adrodd yn ôl i'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn dechrau'r hydref, gan alluogi'r Dirprwy Weinidog i ymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

## 8. Trafodaeth i gloi ac Unrhyw Fater Arall

Trafodwyd y mater o godi ymwybyddiaeth ymhlith y bobl sy'n ymweld â Chymru. Cadarnhawyd dyddiadau'r cyfarfodydd hyd at fis Ebrill 2022.